

Ysgol I.D. Hooson
Heol Caradog
Rhosllannerchrugog
LL14 2DX
Ffôn: 01978 832950
Ffacs: 01978 832955
e-bost: mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk



YSGOL I.D. HOOSON

07.06.21

Annwyl Riant/Ofalwr,

Croeso'n ôl i bawb ar ôl yr hanner tymor. Mawr obeithiwn fod pawb wedi cael wythnos bleserus ac yn edrych ymlaen at hanner tymor olaf y flwyddyn. Hoffwn eich atgoffa o rai pethau a chyflwyno ychydig o wybodaeth ar gyfer y cyfnod sydd o'n blaen hyd at ddiwedd y tymor hwn.

Disgwyliadau pan ar gampws yr ysgol - Diolch i bawb sydd wedi cydymffurfio gyda'r trefniadau amrywiol sydd wedi ei chyflwyno yn ystod cyfnod y pandemig. Bydd trefniadau amserlen ddyddiol bresennol yn parhau hyd at ddiwedd y tymor. Mae rhain yn cynnwys gwisgo mygydau ar gampws yr ysgol, un rhiant/ofalwr i ddod a gollwng plentyn yn yr ysgol, peidio a chynraedd safle'r ysgol dim mwy na 5 munud cyn amser cychwyn/gorffen y plentyn, a pharhau i gadw at reolau ymbellhau cymdeithasol. Mae'n hanfodol fod pawb yn parhau i gadw at y trefniadau hyn er lles ac iechyd a diogelwch personol ac eraill.

Parcio - A fyddech cystal a pharhau i barchu'r trefniadau parcio ar gampws yr ysgol yn ogystal a thu allan i gampws yr ysgol. Mae'r ysgol yn le prysur iawn o ran traffig, yn arbennig yn ystod cychwyn a diwedd dydd, a gofynnwn i bawb gymryd gofal gan fod amryw o blant a rhieni yn cerdded yn ôl ac ymlaen i'r ysgol. Gofynnir hefyd i bawb osgoi parcio wrth brif fynedfa'r ysgol ble mae llinellau melyn dwbl wedi ei marcio. Mae hyn yn creu anghyfleustra mawr i gymdogion, mae'n amharu ar lif traffig i mewn ac allan o'r ysgol, a gall hefyd greu sefyllfa beryglus pe bai achos yn codi ble byddai angen i wasanaethau brys ddod i mewn ni safle'r ysgol. Diolch yn fawr.

Gwydr - Rydym wedi derbyn neges bwysig gan Tracey Hallmark sydd yn bencampwr Cadw Cymru'n Daclus. Mae hi wedi hysbysu'r ysgol fod llawer iawn o wydr wedi ei gasglu ar lwybrau lleol sydd yn cysylltu'r ysgol gyda'r Pant, a hefyd yn y parciau chwarae lleol. A fyddech felly yn cymryd gofal o hyn ac yn cymryd gofal os yw eich plant yn defnyddio'r parciau chwarae lleol.

Eli haul/het - Yn ystod y cyfnod o dywydd braf a heulog, a fyddech cystal a sicrhau fod eli haul wedi ei roi ar eich plentyn yn y bore, a bod ganddo ef/hi het addas i'w gwisgo yn ystod cyfnodau pan allan yn yr haul.

Gemau a theganau - A fyddech cystal â sicrhau fod eich plentyn yn osgoi dod a theganau a gemau o adref i'r ysgol. Rydym wedi sylwi fod nifer o'r plant wedi cychwyn dod ac eitemau di-angen i'r ysgol. Mae'r offer y mae y plant ei angen ar gyfer y dydd ar gael yn y dosbarth, ac felly dylid cadw eitemau personol adref. Diolch

Presenoldeb - Hoffwn eich atgoffa i gysylltu â'r ysgol cyn 9.30 os yw eich plentyn yn sâl ar unrhyw ddiwrnod. Gallwch hefyd anfon neges drwy ddefnyddio'r e-bost mailbox@hooson-pri.wrexham.sch.uk

Yn gywir,

Mr Rhodri Jones
Pennaeth